# Ysgol Gyfun Garth Olwg

**Pennaeth / Headteacher**
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

**Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,**
**Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX**

☎ **01443 219580** 🖷 **01443 219596**
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk


9 Ebrill, 2014

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2014 - Bl 7, 8 a 9**

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, fe fydd eich plentyn yn sefyll cyfres o brofion mewn **rhai** gwersi yn ystod y cyfnod 7fed -13eg o Fai, 2014. Mae'r rhain wedi eu hanelu at fesur cyrhaeddiad a chynnydd mewn agweddau o Lythrennedd Cymraeg a Saesneg a Rhifedd. Yn benodol, mae'r rhaglen fel y gwelir isod:

| **Blwyddyn 7** | **Hywel** | **Iolo** | **Owain** | **Dafydd** | **Gruffydd** | **Llywelyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Darllen Cymraeg | Dydd Gwener, 09/05/14, gwers 1 a 2 | | | | | |
| Darllen Saesneg | Dydd Gwener, 09/05/14, gwers 3 a 4 | | | | | |
| Rhifedd Gweithdrefnol | Dydd Llun, 12/05/14, gwers 1 | | | | | |
| Rhifedd Ymresymu | Dydd Iau, 08/05/14 gwers 3 | | | Dydd Iau, 08/05/14 gwers 4 | | |
| **Blwyddyn 8** | **Dafydd** | **Hywel** | **Owain** | **Gruffydd** | **Iolo** | **Llywelyn** |
| Darllen Cymraeg | Dydd Mercher, 07/05/14, gwers 1 a 2 | | | | | |
| Darllen Saesneg | Dydd Iau, 08/05/14, gwers 1 a 2 | | | | | |
| Rhifedd Gweithdrefnol | Dydd Llun, 12/05/14, gwers 2 | | | | | |
| Rhifedd Ymresymu | Dydd Gwener, 09/05/14, gwers 2 | | | Dydd Gwener, 09/05/14, gwers 1 | | |
| **Blwyddyn 9** | **Gruffydd** | **Hywel** | **Owain** | **Dafydd** | **Iolo** | **Llywelyn** |
| Darllen Cymraeg | Dydd Mercher, 07/05/14, gwers 3 a 4 | | | | | |
| Darllen Saesneg | Dydd Iau, 08/05/14, gwers 3 a 4 | | | | | |
| Rhifedd Gweithdrefnol | Dydd Llun, 12/05/14, gwers 3 | | | | | |
| Rhifedd Ymresymu | Dydd Mercher, 07/05/14, gwers 1 | | | Dydd Mercher, 07/05/14, gwers 2 | | |

Gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad wrth sicrhau presenoldeb eich mab/merch ar y diwrnodau uchod gan gofio dod ag offer megis beiro du neu glas, pensil, dileuydd a phren mesur. Fe fydd y disgyblion yn cael eu paratoi ar gyfer y profion gan eu hathrawon. Serch hynny, hoffwn eich hysbysu am y deunyddiau sampl, sydd ar gael trwy ein gwefan, <http://www.gartholwg.co.uk> er mwyn ymgyfarwyddo eich plentyn gyda ffurf y profion. Ar ein gwefan, gellir hefyd lawrlwytho'r dogfen "Profion Darllen a Rhifedd yng Nghymru - gwybodaeth i rieni/gofalwyr blwyddyn 2-9". Pan nad oes brawf gan eich plentyn bydd gwersi arferol yn rhedeg fel yr arfer. Gofynnwn fod dysgwyr yn ymdrechu eu gorau glas wrth sefyll y profion, fel bod y canlyniadau yn adlewyrchiad cywir o allu a chyrhaeddiad. Yn ogystal, gofynnwn fod y disgyblion yn dod a llyfr darllen rhag ofn iddynt gwblhau prawf yn gynnar. Fe fydd y Llywodraeth a'r Ysgol yn defnyddio canlyniadau'r profion i dargedu meysydd a disgyblion sydd angen ymyrraeth er mwyn gwneud cynnydd pellach. Yn ogystal, fe fyddwch yn derbyn adroddiad byr ar ganlyniadau'r profion erbyn diwedd tymor yr haf. Dymunwn bob llwyddiant i'r disgyblion yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn gywir,

Geraint Lewis,
Dirprwy Bennaeth

Campws Cymunedol Gartholwg Community Campus